PRIFYSGOL ABERYSTWYTH UNIVERSITY

Coleg Cymraeg Cenedlaethol

**E-lawlyfr 2**

**CYFLWYNIAD I SYNIADAU GWLEIDYDDOL**

Uned 3: Llywodraeth a Gwleidyddiaeth

CYSYNIADAU A DAMCANIAETHAU GWLEIDYDDOL

## Adnodd 1

# *Rhyddfrydiaeth: Nodweddion Allweddol*

## Canllaw i Athrawon

International Politics Gwleidyddiaeth Ryngwladol

cbac wjec

# CANLLAW I ATHRAWON

Mae'r adnodd hwn, ***Rhyddfrydiaeth: Nodweddion Allweddol***, yn un o wyth sy'n rhan o ***E-lawlyfr 2: Cyflwyniad i Syniadau Gwleidyddol***. Mae pob un o'r adnoddau sy'n rhan o'r e-lawlyfr hwn wedi'u teilwra'n arbennig i gynorthwyo'r sawl sy'n dysgu neu'n astudio Uned 3 o fanyleb CBAC ym maes Llywodraeth a Gwleidyddiaeth, sef 'Cysyniadau a Damcaniaethau Gwleidyddol.'

Bwriad yr adnodd hwn yw rhoi sylw i faterion sy'n berthnasol i adran 3.1.1 o'r fanyleb, sef 'Gwerthoedd a Syniadau Sylfaenol Rhyddfrydiaeth'. Gwneir hynny trwy gynnig cyflwyniad i rai o'r elfennau Rhyddfrydol allweddol a gaiff eu rhestru yn yr adran hon o'r fanyleb, er enghraifft, unigolyddiaeth, rhyddid, rheswm, cydraddoldeb, goddefgarwch ayyb. Dylid nodi bod cysylltiad agos rhwng yr adnodd hwn ac Adnodd 2, Rhyddfrydiaeth: Ffrydiau Aymrywiol, sy'n cyflwyno rhai o'r ffrydiau Rhyddfrydol pwysig sydd hefyd cael eu rhestru yn adran 3.1.1 o'r fanyleb.

Bwriad y canllaw byr yma yw cynnig amlinelliad o gynnwys yr adnodd a hefyd gorolwg o'r math o ymarferion a geir yn y llawlyfr gwaith.

## Cynnwys y Llawlyfr Gwybodaeth

I ddechrau, mae'r llawlyfr gwybodaeth yn cynnig gorolwg o'r drafodaeth ynglŷn â gwreiddiau Rhyddfrydiaeth. Eglurir mai'r consenswS cyffredinol ymhlith ysgolheigion yw mai ideoleg a ddatblygodd yn sgil cyfres o newidiadau gwleidyddol, cymdeithasol ac economaidd mawr a welwyd rhwng yr ail ganrif ar bymtheg a'r bedwaredd ganrif ar bymtheg yw rhyddfrydiaeth.

Yna, cynigia'r llawlyfr gwybodaeth gyflwyniad cyffredinol i ystod o'r elfennau hynny sydd wedi dod i hawlio lle canolog yn y byd-olwg Rhyddfrydol, gan gynnwys unigolyddiaeth, rhyddid, rheswm, cydraddoldeb, goddefgarwch, cydsyniad a chyfansoddiadaeth. Trafodir pob elfen yn ei thro, ac ym mhob achos fe gynigir eglurhad o unrhyw egwyddorion neu gysyniadau perthnasol.

Er bod y gwahanol elfennau a gyflwynir yn yr adnodd hwn yn rhai sydd wedi dod i gael eu trin fel rhai sydd wedi tueddu i nodweddu'r byd-olwg Rhyddfrydol – gan ganiatáu i ni wahaniaethu rhwng Rhyddfrydiaeth ac ideolegau gwleidyddol eraill megis Ceidwadaeth neu Sosialaeth – fe ddylid nodi hefyd nad yw pob Rhyddfrydwr wedi dewis dehongli neu gymhwyso'r elfennau hyn yn union yr un modd dros y blynyddoedd. Fe ddaw hyn yn fwy amlwg i'r disgyblion wrth iddynt fynd ati i ystyried cynnwys Adnodd 2 sydd yn manylu ar y gwahaniaethau pwysig rhwng Rhyddfrydiaeth Glasurol a Rhyddfrydiaeth Fodern.

## Ymarferion yn y Llawlyfr Gwaith

Mae'r llawlyfr gwaith yn cynnwys cyfres o gwestiynau sy'n canolbwyntio yn eu tro ar bob un o'r nodweddion allweddol a drafodwyd yn y llawlyfr gwybodaeth – unigolyddiaeth, rhyddid, cydraddoldeb ayyb. Gofynnir i'r disgyblion ysgrifennu cyfres o baragraffau sy'n cynnig atebion i'r cwestiynau yma. Nod hyn yw cynnig cyfle iddynt lunio amryw o ddarnau byr sy'n crynhoi mewn modd digon syml pam mae Rhyddfrydwyr wedi tueddu i roi pwyslais mawr ar elfennau o'r fath. Fel opsiwn arall, fe ellid defnyddio'r cwestiynau yn y llawlyfr gwaith fel sail ar gyfer cyfres o drafodaethau grŵp.

## DARLLEN PELLACH

Barbara Goodwin, *Using Political Ideas* (Chichister, John Wiley & Sons Ltd, 2014), pennod ar Ryddfrydiaeth, tud 39-72.

Andrew Vincent, *Modern Political Ideologies* (Rhydychen, Wiley-Blackwell, 2010), pennod ar Ryddfrydiaeth, tud 22-55.